**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 434**
**16 Ionawr, 2020 - S4C, Caernarfon**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Hugh Hesketh Evans | (Cadeirydd) |
| Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | |
|---|---|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Hefyd yn bresennol:**
**Staff S4C:**

| | |
|---|---|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Eilir Jones | (Pennaeth Dadansoddi) – eitemau 11 a 12 |
| Ruth Meadows | (Pennaeth Strategaeth Digidol) – eitemau 8 a 9 |
| Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 11 |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C yng Nghaernarfon.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau pellach.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2 **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 433 a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2019**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 433 a gynhaliwyd ar y 11eg o Ragfyr, 2019.

Cymeradwywyd y cofnodion.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 433**

**Nosweithiau Gwylwyr** – nodwyd fod trefniadau ar y gweill ar gyfer Pontypridd (20 Chwefror) ac Aberystwyth (18 Mawrth).

**Cwrdd gyda'r Urdd** – roedd y swyddogion wrthi'n trefnu i gwrdd i drafod ymhellach. Awgrymodd SL y posibiliad trefnu 'roadshows' ar y cyd yn y dyfodol.

**TAW** – **[Crynodeb:** penderfynwyd y dylai swyddogion ysgrifennu at DCMS ynglŷn â'r sefyllfa TAW yng nghyfarfod Bwrdd mis Rhagfyr. Ers hynny, roedd S4C wedi derbyn newyddion mwy calonogol. Byddai cadarnhad ffurfiol maes o law.]

**Yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant** - **[Crynodeb:** Trafodwyd y paratoadau ar gyfer yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Soniodd OE am ei gyfarfodydd diweddar gyda Gweinidogion newydd Swyddfa Cymru.

4. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu er gwybodaeth. Adroddodd OL fod y gofrestr wedi'i diweddaru.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad gan gynnwys y materion canlynol.

**Penodiad y Cadeirydd Newydd**

**[Crynodeb:** Disgwylir i'r DCMS cyhoeddi penodiad ein Cadeirydd newydd yn fuan, yn ddibynnol ar wrandawiad gan gydbwyllgor Materion Cymreig a Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ddechrau Mawrth gyda Rhodri Williams y darpar Gadeirydd.

Nododd OL taw un o oblygiadau'r oediad gyda phenodiad y Cadeirydd yw na fydd y DCMS yn debygol o ddechrau'r broses o edrych am aelodau anweithredol newydd tan y gwanwyn.]

**Cydleoli**

Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod Bwrdd mis Rhagfyr, ysgrifennodd y Cadeirydd at swyddogion y BBC ar 18 Rhagfyr 2019 a derbyniwyd ymateb gan Gareth Powell o'r BBC ar 19 Rhagfyr 2019.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, gan gynnwys y materion isod.

**Diweddariad ar y Prosiect Cydleoli**

**[Crynodeb:** Rhoddodd OE ddiweddariad i'r Bwrdd ar y Prosiect Cydleoli. Trefnwyd cyfarfod â'r BBC ar 6 Chwefror i drafod manylion ariannol y prosiect. Roedd y swyddogion yn disgwyl derbyn y model ariannol diwygiedig.]

**Gwleidyddion**

Yn dilyn yr etholiad cyffredinol, roedd cynllun cyswllt gwleidyddol yn cael ei weithredu. Byddai OE yn San Steffan yn rheolaidd dros y misoedd nesaf yn cyfarfod cymaint o'r ASau newydd â phosib ac yn parhau'r cyswllt gyda'r ASau sydd wedi dychwelyd. Roedd eisoes wedi cyfarfod yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Gymru yn gynharach yr wythnos hynny.

**Tystiolaeth S4C i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad ar Ddatganoli Darlledu**

Nododd OE fod ymgysylltu gydag Aelodau'r Cynulliad yn parhau a chafodd gyfarfodydd gyda dau aelod o'r Pwyllgor Diwylliant yn ystod mis Rhagfyr.

Roedd y Pwyllgor yn cynnal ymgynghoriad ar ddatganoli darlledu ac yn ystyried dyfodol PSBs fel rhan o 'Sgrin Fach Sgwrs Fawr' Ofcom. Roedd OE yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 22 Ionawr ac roedd y briff ar gyfer y sesiwn wedi'i rannu gyda'r aelodau er gwybodaeth. Roedd y Bwrdd yn meddwl fod y briff wedi taro'r tôn iawn.

**Papur ar yr Archif Tapiau**

Cyflwynodd EM y papur gan esbonio'r cefndir. O ran digideiddio'r archif, roedd y gwaith mewnol bron yn orffenedig. Y cam nesaf byddai'r 'injest' i mewn i system y BBC a disgwylir i hwnnw gymryd 18 mis pellach. Y cwestiwn oedd beth ddylai ddigwydd i'r tapiau wedyn.

[**Crynodeb**: Esboniodd EM y pum opsiwn yn y papur. Blaenoriaeth S4C oedd sicrhau fod yr archif rhaglenni ac unrhyw gynnwys perthnasol ers 1982 yn ddiogel a hygyrch er mwyn darlledu yn y dyfodol. Penderfynwyd y dylid parhau â'r deialog ynghylch dyfodol y tapiau.]

7. **Ail Frandio S4C**

Cyflwynodd GW bapur ar y bwriad i ail frandio S4C. Yn gyntaf, y bwriad oedd defnyddio cwmni arbenigol i gynnal grwpiau ffocws ar hyd a lled Cymru er mwyn ymchwilio i'r hyn mae ein gwylwyr, a'r rhai sydd ddim yn gwylio, yn meddwl ac yn disgwyl oddi wrth S4C. Yr ail ran o'r broses fyddai, yng ngoleuni'r canlyniadau ymchwil, ystyried strategaeth cynnwys a chynnwys aml blatfform S4C. Yn drydedd, byddai angen cydweithio gyda chwmni arbenigol, i adeiladu ar ganlyniadau'r ymchwil a'r strategaeth gynnwys 5 mlynedd i greu gwerthoedd, brand a hunaniaeth weledol newydd i'r gwasanaeth er mwyn ein harwain drwy'r cyfnod 2022-27. Byddai angen mynd drwy'r broses tendro ar gyfer cyflogi cwmni arbenigol.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am yr amserlen gan gofio fod angen cwblhau'r gwaith ar Strategaeth 22 yn gyntaf cyn cynnig tendr am y gwaith. Credai AR fod cyfnod yr haf yn bwysig i S4C gyda'r ymgyrch iaith ac yn gyfle perffaith i'r cyhoedd thrafod a bwydo i mewn i Strategaeth 22 a dyfodol a rôl S4C.

Trafodwyd hefyd y cyfle i gynnwys pob rhan o S4C yn y gwaith a phwysigrwydd ymgysylltu'n allanol. Nid oedd y Nosweithiau Gwylwyr yn llwyddo i gyrraedd rhai cymunedau penodol, ac roedd y Bwrdd yn awyddus i drio ffyrdd newydd o ymgysylltu gan gynnwys deialog gyda'r sector.]

Cymeradwywyd cyfeiriad cychwynnol y broses o ail-frandio

8. **Diweddariad ar yr adolygiad o swyddogaeth cyfathrebu a marchnata S4C - cyflwyno canfyddiadau cychwynnol**

Rhoddodd RM amlinelliad o'r gwaith cychwynnol sydd eisoes wedi digwydd yn fewnol ac allanol. Roedd grŵp mewnol wedi'i sefydlu gyda staff ar draws S4C i

edrych ar themâu gwahanol a thrafod syniadau posib. Roedd y cyfarfod cyntaf wedi ystyried cyfathrebu mewnol ac yn drafodaeth fywiog ac egnïol.

**[Crynodeb:** Roedd ymgais i ddeall patrymau gwylio'r gynulleidfa o ran grwpiau oedran ond hefyd awydd i edrych ar gymunedau gwahanol ar draws Cymru. Roedd OE yn awyddus i uno'r gwaith traddodiadol a'r digidol gan gydnabod yr her gyda'r timau ar wasgar. Bwriada RM gyflwyno argymhellion cychwynnol i'r Bwrdd ym mis Chwefror.]

9. **Cynllun Digidol**

Cyflwynwyd adroddiad gan RM i ddiweddaru'r Bwrdd ar y cynllun digidol.

**[Crynodeb:** Nodwyd fod y cofrestriadau ar gyfer S4C Clic wedi cyrraedd 90,000 erbyn hyn gyda chynnydd o gwmpas digwyddiadau chwaraeon. Bwriedir ymgymryd ag ymchwil i ddarganfod mwy am y defnydd o S4C Clic. Holwyd am y gwaith o sicrhau fod S4C Clic wedi'i gynnwys ar Smart TVs. Roedd RM newydd dderbyn amserlen a'r nod oedd sicrhau presenoldeb ar y rhan fwyaf o 'Smart TVs' erbyn mis Mai.]

Gofynnwyd am ddiweddariad maes o law.

10. **Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2020/21**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd AR y drafft o Gynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2020/21 a dderbyniodd ganddynt. Roedd yn adlewyrchu'r newidiadau i strwythur y cyflenwad yn sgil y newidiadau i amserlen S4C.]

Cymeradwywyd Cynllun drafft Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2020/21 gan nodi fod trafodaethau'n parhau o ran chwaraeon.

11. **Papur ar Amrywiaeth Cynnwys S4C**

Esboniodd CHR bod gan S4C ymrwymiad amrywiaeth sy'n weithredol ers Rhagfyr 2018. Nod yr ymrwymiad oedd sicrhau bod S4C yn portreadu amrywiaeth y gymuned a'r gwylwyr.

**[Crynodeb:** Roedd y papur yn edrych ar sut y gellid dadansoddi a mesur amrywiaeth cynnwys S4C er mwyn cael darlun o'r perfformiad.
Yr argymhelliad gan y swyddogion oedd opsiwn 1 y papur, sef comisiynu prifysgol gyda myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i weithio gyda S4C ar gynllun peilot o wythnos gyda'r Creative Diversity Network yn cynghori. Y nod fyddai gosod y cynllun peilot yn ei le erbyn Mawrth 2020.

Gofynnwyd a oedd wythnos yn ddigon hir a chafwyd trafodaeth dros ba wythnos gan y gallai golygu goblygiadau gwahanol o ran amrywiaeth. Nododd EJ y byddai modd gwneud peilot hirach a mwy trwyadl ond nod y darn yma o waith oedd galluogi S4C i ystyried opsiynau o ran uchelgais a thargedau posib i'r cynnwys maes o law.]

Nodwyd pa mor bwysig oedd sicrhau amrywiaeth nid yn unig ar y sgrin ond tu ôl i'r camera hefyd. Ategodd AR bwysigrwydd dangos amrywiaeth cymdeithasol yn ogystal.

Cymeradwywyd Opsiwn 1 sef comisiynu prifysgol gyda myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i weithio gyda S4C ar gynllun peilot o wythnos, i fonitro amrywiaeth ar S4C.

12. **Perfformiad Misol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EJ ei adroddiad ar berfformiad gwasanaethau S4C yn ystod y mis. Gwelwyd eto pwysigrwydd chwaraeon i ffigyrau'r sianel ac i'r gwasanaethau digidol. Nodwyd y gwahaniaeth ym mhatrymau gwylio'r cynnwys ar Clic ac ar yr iPlayer gyda Pobol y Cwm yn ddylanwad amlwg.]

13. **Adroddiad Cyfathrebu**

Cyflwynodd GW yr adroddiad Cyfathrebu ar gyfer y chwarter.

**[Crynodeb:** Ymhlith y blaenoriaethau hyrwyddo yn ystod y cyfnod dan sylw roedd y ddrama Craith a rhaglenni'r gwasanaeth dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

O ran gweithgareddau hyrwyddo roedd Taith Nadolig Cyw wedi cynnal 31 sioe mewn taith o amgylch 12 lleoliad, gan gyflwyno Cyw a rhai o gymeriadau eraill y gwasanaeth i'w cynulleidfa.]

Diolchodd y Cadeirydd am yr holl waith caled ynghlwm â Thaith Nadolig Cyw.

14. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys (gynhaliwyd 15.01.20)**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd RhW uchafbwyntiau'r Pwyllgor Cynnwys y diwrnod blaenorol. Trafodwyd Strategaeth Ryngwladol S4C sy'n amlinellu amcanion S4C wrth weithredu yn y farchnad ryngwladol yn ystod y tair blynedd nesaf.

Cafwyd cyflwyniad gan RhapD ar Strategaeth a Chynllun Hansh 2020-22. Roedd y cynllun yn edrych yn benodol ar Hansh a sut y gellir sicrhau bod cynnwys ar-lein a anelir at bobol 16-34 yn datblygu a thyfu yn y ddwy flynedd nesaf. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth.]

Cymeradwywyd Strategaeth a Chynllun Hansh 2020-22

15. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth. Roedd OE wedi gofyn am adroddiad misol byr sy'n rhoi trosolwg o sylwadau'r Wifren gan gynnwys unrhyw themâu amlwg.

16. **Rhaglen Waith 2019/20**

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith ar gyfer 2020 er gwybodaeth i'r Bwrdd. Adroddodd OL ei fod wedi cyfarfod gyda Ruth McElroy, a bod bwriad i'w gwahodd i'r Bwrdd ym mis Chwefror i gael trafodaeth am ddyfodol PSBs.

Cytunwyd y dylai cyfarfod y Bwrdd mis Mawrth fod yn Gwrdd i Ffwrdd. Nodwyd hefyd y bwriad o gynnal cyfarfod o'r Bwrdd yn Sgwâr Canolog cyn yr haf.

17. **Unrhyw Fater Arall**

Atgoffwyd aelodau anweithredol y Bwrdd fod angen diweddaru'r ffurflen datganiad diddordebau.